

**Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf (PCRh) Adolygiad Blynyddol
1af Ebrill 2017 - 31 Mawrth 2018**



Cynnwys

Crynodeb Gweithredol, y Cyngorydd Rhys Lewis.....	Page 3
Cyflwyniad	Page 4
Astudiaeth Achos Rhanbarthol A.....	Page 5
Astudiaeth Achos Rhanbarthol B.....	Page 6
Sut mae pobl sy'n cyrchu gwasanaethau yn cael eu cynnwys	Page 7
Datblygiadau Gwasanaeth	Page 9
Gwerthusiad Aelodau PCRh	Page 16
Llywodraethu a Chynnal a Chadw	Page 17
Atodlen A.....	Page 18

1. Crynodeb Gweithredol

Fel Cadeirydd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf dros y 12 mis diwethaf, mae wedi bod yn bleser i oruchwylio'r datblygiad sydd wedi cael ei wneud i gomisiynu'n rhanbarthol a'r gwaith sy'n parhau i fynd rhagddo er mwyn sicrhau fod cefnogaeth o'r ansawdd orau'n cael ei darparu ar gyfer y gwasanaethau sy'n ymwneud â thai.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae aelodau ymroddedig y PCRh (Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol) wedi parhau i gefnogi'r timau lleol i gynnal neu wella safonau ar draws gwasanaethau CP (Cefnogi Pobl) sy'n cael eu hariannu ar draws y rhanbarth a hynny trwy fonitro gofalus, ad-drefnu ac ail-gomisiynu lle y mae hynny'n addas. Mae'r PCRh yn gwbl gefnogol i'r prosiect cyfredol sy'n cael ei gydariannu er mwyn cynnal astudiaeth dichonoldeb i ddarpariaeth hosteli yn y rhanbarth ac rydym yn obeithiol y bydd hyn yn arwain at welliannau pellach mewn gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anghenion cymhleth. Mae hefyd yn gadarnhaol i weld fod gweithio rhanbarthol wedi datblygu ymhellach wrth i ymgysylltiad defnyddiwr gwasanaeth gael ei gynnal ar lefel rhanbarthol gan ddwyn ynghyd holl brofiad ein harbenigwyr o Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Cynhaliwyd ymgynghoriad darparwr gwasanaeth yn ogystal â digwyddiad rhwydweithio cyntaf.

Mae wedi bod yn galonogol i weld, yn ystod cyfnod o ansicr i'r rhaglen fod y PCRh wedi parhau i fod yn ymroddedig i lwyddiant Cefnogi Pobl yng Nghwm Taf gan ganolbwyntio ar sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth trwy ymgynghoriad ac ymgysylltiad.

Edrychaf ymlaen at weld beth allwn eu cyflawni yn ystod y 12 mis nesaf a pharhad llwyddiant y rhaglen yng Nghwm Taf.



Y Cynghorydd Rhys Lewis M.A
Cadeirydd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf,
Aelod o Gabinet RhCT ar gyfer Cymunedau Cryfach, Lles a Gwasanaethau Diwylliannol

2. Cyflwyniad



Lleolir Cwm Taf yn Ne Ddwyrain Cymru ac mae'n cynnwys ardaloedd Awdurdodau Lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Cwm Taf yw'r lleiaf o'r ardaloedd cydweithiol sy'n cynnwys oddeutu 9.6 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru ac oddeutu 293,000 o breswylwyr. Cwm Taf yw'r ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru (gan ddefnyddio safon mesur ardal sy'n seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.)

Mae gan bob ardal bwyllgor cydweithiol sy'n adrodd yn ôl i Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, sydd, yn ei dro yn cynghori'r gweinidog ar benderfyniadau sy'n ymwneud â'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae Pwyllgor Cydweithiol Rhanbarthol Cwm Taf yn cynnwys ymarferwyr tai a digartrefedd proffesiynol, cynrychiolwyr o'r sector statudol, awdurdodau lleol, aelodau etholedig a darparwyr cymorth sy'n ymwneud â thai yn y rhanbarth. Mae PCRh Cwm Taf yn manteisio ar aelodaeth hyddysg, ymroddedig ac angerddol y pwyllgor ac mae pob aelod yn ymroddedig i wella 'r gwasanaethau sy'n ymwneud â chymorth tai ar gyfer aelodau mwyaf bregus ein cymunedau. Mae'r adolygiad blynyddol canlynol yn

amlinellu'r datblygiad a wnaethpwyd yn yr ardal rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018.

Yn 2017, croesawodd y PCRh ddau aelod cabinet newydd - y Cynghorydd Rhys Lewis, RhCT (Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar gyfer Cymunedau Cryfach (Gwasanaethau Lles a Diwylliannol) a'r Cynghorydd David Hughes, CBSMT (Aelod Cabinet ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol.) Mae gan y ddau aelod gyfoeth o wybodaeth, profiad a brwdfrydedd ac maent wedi gwneud cyfraniadau gwych dros y 12 mis diwethaf. Bydd aelodau'r cabinet yn cymryd awenau'r Cadeirydd, bob yn ail am gyfnod o flwyddyn yr un. Mae'r Cynghorydd Lewis wedi bod yn y Cadeirio yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn a bydd yn trosglwyddo'r awenau i'r Cynghorydd Hughes ym mhwyllgor chwarterol 2 sydd wedi ei amserlenni ar gyfer Medi 2018.

Yn ystod 2017/18, mae'r PCRh wedi bod yn archwilio cyfleoedd ar gyfer datganoli darpariaeth hosteli'n rhanbarthol. Mae maint a chapasiti tebyg y darpariaethau llety brys yn yr awdurdodau lleol yn darparu cyfle i ystyried comisiynu un gwasanaeth ar y cyd ar gyfer y rhanbarth a fyddai'n cwrdd ag anghenion amrywiol ac yn aml, cymhleth pobl sengl, digartref ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. (Gweler Astudiaeth Achos 1)

Er yr ansicrwydd ynghylch y gyllideb flynyddol a'r cyhoeddiad y bydd y ddau Awdurdod Lleol yn cyfranogi yn y rhaglen fraenaru ar gyfer hyblygrwydd o 100% rhwng grantiau, mae'r PCRh wedi parhau i sicrhau fod gwasanaethau CP o'r ansawdd uchaf yn cael eu darparu mor effeithiol â phosib drwy fonitro gwariant, ffocysu ar ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cyd-gomisiynu lle y bo hynny'n addas.

3. Astudiaethau Achos

ASTUDIAETH ACHOS 1:- Archwilio cyfleoedd ar gyfer comisiynu darpariaeth hostel rhanbarthol ar gyfer Cwm Taf

Mae PCRh Cwm Taf yn ymrwymedig i gomisiynu rhanbarthol lle y mae hynny'n addas a'r bwriad yw gwella cysondeb, safon y ddarpariaeth a gwerth am arian ar draws y fwrdeistref. Yn ystod cyfnod yr adroddiad mae PCRh wedi trafod nifer o gyfleoedd posib i gomisiynu gwasanaethau'n rhanbarthol lle y gellir gwneud arbedion ariannol ac y byddai'n fanteisiol i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Dynodwyd Darpariaeth Hostel gan swyddogion arweiniol CP fel cyfle posib i weithredu'r ymrwymiad hwn yn y dyfodol agos. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) ar hyn o bryd yn comisiynu Adref Limited ar gyfer gwaith rheoli a chynorthwyo 40 uned sy'n darparu hostel mewn argyfwng ar gyfer pobl sengl, digartref.

Mae'r ddau awdurdod yn gweithredu pwynt mynediad sengl i'r hosteli sy'n cael ei gydlynu gan Dimau Atebion Tai'r awdurdodau lleol. Mae'r prosiectau yn y ddwy ardal yn cael eu rhedeg mewn unedau tebyg o ran maint a chost, yn cael eu darparu gan yr un darparwr gwasanaeth ac yn cynnig cyfle gwych ar gyfer comisiynu rhanbarthol ledled y ddwy fwrdeistref er mwyn darparu darpariaeth hostel mewn argyfwng effeithiol ar gyfer pobl sengl, digartref.

Yn sgil y capasiti presennol llwythi gwaith y ddau dîm Cefnogi Pobl, cafodd penderfyniad ei wneud i gomisiynu ymgynghorydd i wneud adolygiad hostel a chynnwys archwilio a datblygu cyfleoedd i gydweithio'n rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo y gellir cyllido'r astudiaeth trwy'r Grant Cefnogi Pobl.

Rôl yr ymgynghorydd fydd:

- Archwilio'r posibilrwydd ar gyfer adolygiad hostel gan gynnwys paratoi adroddiad, dadansoddiad CGCB (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau) a chostau gwasanaeth ar gyfer ystyried comisiynu rhanbarthol neu ail-dendro.
- Cydweithio â'r ddau awdurdod er mwyn adolygu prosiectau presennol a pharatoi dogfennau er mwyn sicrhau cysondeb ymarferion gweithredol a chefnogaeth ledled y rhanbarth ar gyfer darpariaeth hostel. Mae'n cael ei gydnabod y bydd rhaid i bob awdurdod lleol gydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014 ac y bydd ganddynt eu trefniadau lleol eu hunain yn eu lle gan gynnwys cynlluniau symud ymlaen a dyrannu
- Derbyd cymeradwyaeth GCCG (Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl) CBSMT a RhCT ac (yn destun eu cymeradwyaeth,) paratoi dogfennau ar gyfer ailgomisiynu a hynny mewn ymgynghoriad â Thimau Cefnogi Pobl a'r landlordiaid ar gyfer pob prosiect.
- Cynorthwyo ag unrhyw drefniadau pontio os bydd darparwr newydd yn cael ei gomisiynu a chynorthwyo â gweithrediad trefniadau gweithredol newydd. Bydd hyn yn cynnwys paratoi dogfennau gweithdrefnol a/ neu lwybr gofal a hwyluso gweithdai ar gyfer staff yr hostel er mwyn canfod gwybodaeth ac unrhyw drefniadau gweithiol newydd y cytunwyd arnynt fel rhan o'r adolygiad.

Mae dogfen 'cais am amcan bris' wedi cael ei pharatoi gan arweinwyr CP a'i chymeradwyo gan ddau grŵp cynllunio'r awdurdodau lleol. Bydd yn cael ei hysbysebu ar Sell 2 Wales ar 1 Gorffennaf 2018 a'r gobaith fydd apwyntio ymgynghorydd i ddechrau gweithio ar 1 Medi. Bydd yr ymgynghorydd yn darparu diweddariadau cyson i'r PCRh a'r ddau GCCP ar y datblygiad a fydd yn cael ei wneud.

ASTUDIAETH ACHOS 2:- Ymgysylltiad Defnyddiwr Gwasanaeth Rhanbarthol a Fforwm Darparwr Gweithredol

Mae PCRh Cwm Taf yn awyddus i sicrhau fod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ledled rhanbarth y PCRh yn berthnasol i anghenion defnyddwyr y gwasanaeth. Mae darparwyr wedi ymgorfforu'n gyson Ymgysylltiad y Defnyddwyr Gwasanaeth i'w darpariaeth ddyddiol trwy amrywiaeth o ddulliau ffurfiol ac anffurfiol (tebyg i gyfarfodydd mewn tai, arolygon bodlonrwydd tenantiaid a fforymau i denantiaid.) Mae'r PCRh hefyd wedi cynnal ei weithgareddau ymgynghorol ei hun er mwyn pennu lefelau bodlonrwydd a dynodi meysydd sydd angen eu gwella. Cafodd dwy sesiwn eu cynnal ym Mawrth 2018 ac roedd 36 Defnyddiwr Gwasanaeth yn bresennol o amrywiaeth o gynlluniau lleoliadau sefydlog a chymorth lle y bo'r angen ledled y rhanbarth. Roedd y sesiynau'n rhai anffurfiol a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws a hwyluswyd y sesiynau gan staff y timau CP lleol a'r Cydlynnydd Datblygiad Rhanbarthol. Anogodd yr hwyluswyr drafodaethau a oedd yn ymwneud â chyfres o gwestiynau eang (gweler ATODIAD A.) Cafodd defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn methu â bod yn bresennol (neu nad oedd am wneud hynny) gyfle i gwblhau holiaduron yn seiliedig ar yr un cwestiynau ag a holwyd y grwpiau ffocws (yn anhysbys os oeddent yn dymuno hynny.)

Mae Gwasanaethau Cefnogi Pobl Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yn rhannu nifer o Ddarparwyr Gwasanaeth. Wedi trafodaethau mewn fforymau darparwyr lleol, daeth yn amlwg y gallai effeithiolrwydd cyfathrebu'r timau CP â'r staff cymorth gael ei wella drwy gynnal fforymau darparu rhanbarthol ar lefel weithredol. Byddai hyn yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu'n uniongyrchol â'r gweithwyr cymorth a'u rheolwyr llinell a chaniatáu gwell cyfathrebu dwy ffordd a fyddai'n sicrhau gwell ymgysylltiad rhwng staff a'r timau CP. Yn Ionawr 2017, cynhaliwyd digwyddiad rhwydweithio rhanbarthol cyntaf y darparwyr CP ynghyd ag ymarfer ymgynghorol er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o ddarpariaethau CP sy'n cael eu cynnig ledled y rhanbarth. Rhoddodd hyn gyfle i ddarparwyr arddangos eu gweithgareddau a'u hymyriadau a rhannu ymarferion da â darparwyr gwasanaeth eraill. Cafodd y sesiwn ymgynghorol ei chynnal wedi'r cyfle i rwydweithio a chaniatodd i'r PDRh dderbyn mewnbwn ar ddiweddariad y Cynllun Strategol Rhanbarthol ar ran y PCRh a rhoi cyfle i ddarparwyr godi unrhyw bryderon. Roedd yr adborth o'r sesiwn yn gadarnhaol a bydd sesiynau yn awr yn cael eu cynnal pob chwe mis. Bydd y Fforymau Darparwyr Gweithredol newydd hyn yn gyfle i dimau CP rannu gwybodaeth yn ogystal â hwyluso trafodaethau yn ymwneud â darpariaeth gwasanaeth a chaniatáu i staff godi materion sy'n berthnasol.

4. Sut mae pobl sy'n cyrchu gwasanaethau'n cael eu cynnwys

Cynhyrchodd PCRh Cwm Taf Fframwaith Defnyddiwr Gwasanaeth yn 2004 sydd ar gael i'r cyhoedd a gellir ei weld ar: <https://www.merthyr.gov.uk/media/3287/service-user-framework-eng.pdf>

Yn unol â'r fframwaith, cynhaliwyd nifer o weithgareddau ymgysyllti Defnyddiwr Gwasanaeth rhanbarthol yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gynnwys sesiynau ymgysylltu grŵp ffocws ar gyfer llety safle penodol a gwasanaethau cymorth pan fo'r angen. Cynhaliodd darparwyr sy'n darparu gwasanaethau cymorth i bobl eu gweithgareddau ymgysyllti eu hunain trwy gydol y flwyddyn fel rhan o'u hymarfer sylfaenol.

Sesiynau Ymgysylltiad Rhanbarthol:

Ar 8 Mawrth 2018, cynhaliodd yr PDRh a thimau CP lleol eu hymgyngoriad uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth ar ran y PCRh. Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal dros 2 sesiwn, un yn y bore a oedd wedi ei anelu at y rheini sy'n byw mewn llety sy'n derbyn cymorth 24 awr (ond roedd rhai defnyddwyr gwasanaeth sydd bellach wedi symud ymlaen o gymorth 24 awr hefyd yn bresennol) ac un yn y prynhawn ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n cyrchu'r cymorth pan fo'r angen yn eu tenantiaeth eu hunain. Roedd 21 defnyddiwr gwasanaeth yn bresennol yn sesiwn y bore a 15 defnyddiwr gwasanaeth yn bresennol yn y prynhawn. Daeth Gweithwyr Cymorth gyda'r mwyafrif ohonynt i'r sesiynau.

Cafwyd trafodaethau grŵp a seiliwyd ar 10 cwestiwn - nododd staff CP a oedd yn hwyluswyr y sylwadau gan annog y trafodaethau. Mae'r sylwadau isod wedi eu cofnodi mor agos â phosib i'r geiriau a ddefnyddiwyd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth. Cafodd y cyfranogwyr gynnig copïau papur o'r cwestiynau os oeddent yn teimlo eu bod am gyfrannu ond nad oeddent am fod yn rhan o drafodaethau grŵp - ni ddewisodd yr un defnyddiwr gwasanaeth yr opsiwn hwn ac roedd pob ymateb ar lafar.

Gellir dod o hyd i gofnod sylwadau yn Atodlen A

Gweithgareddau ymgysyllti sy'n mynd rhagddynt gan ddarparwyr gwasanaeth. Maent yn cynnwys:-

- Cyfarfodydd Tŷ
- Arolygon gadael
- Arolygon bodlonrwydd
- Fforymau defnyddwyr gwasanaeth
- Grwpiau ffocws ar gyfer defnyddwyr penodol
- Gweithdrefn gwynion cadarn
- Trafodaethau anffurfiol rhwng defnyddwyr y gwasanaeth a gweithwyr cymorth
- Blychau argymhellion
- Ffurflenni adolygu pob 3 mis
- Defnyddwyr gwasanaeth yn ymddiriedolwyr ar fwrdd rheoli rhai sefydliadau darparu
- Cynllunio sy'n gosod yr unigolyn yn ganolbwynt
- Polisi drws agored lle y gall darparwyr gwasanaeth gael gafael ar staff
- Defnyddwyr Gwasanaeth yn rhan o recriwtio staff
- PBC yn agored i ddefnyddwyr gwasanaeth

Wrth symud ymlaen, bydd ymgysylltiad rhanbarthol yn ceisio cynnwys ymgynghoriad â (chanran o bobl) a gafodd eu cyfieirio i'r rhaglen ond na dderbyniodd / gafodd eu derbyn ar gyfer cymorth yn ogystal â'r rhai hynny a bennwyd darparwr ar eu cyfer ond na ymgysylltodd â'r rhaglen ac y daeth eu cymorth i ben. Bydd y PCRh hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o gynnwys myfyrwyr y Gwyddorau Cymdeithasol yn y broses ymgynghorol er mwyn gwella ymhellach safon ac elfen ddiuedd yr ymchwil a fydd yn cael ei wneud.

5. Datblygiadau'r Gwasanaeth

Sut cafodd penderfyniadau eu ffurfio yn sgil y cynllun gwariant, dadansoddiadau angen, deilliannau a ffynonellau eraill o ddata?

RhCT:-

Trwy gydol 2017, bu'r Tîm Cefnogi Pobl yn cynnal adolygiad strategol ar gyfer gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen. Yn sgil nifer o ffynonellau data amrywiol, tanlinellwyd y galw isel ar gyfer rhai grwpiau o gleientiaid (pobl ifanc yn bennaf) a galw uchel ar gyfer anghenion niferus/cymhleth. Mae niferoedd uchel o unigolion sydd ag anghenion niferus ar y rhestr aros a llefydd gwag ar y rhestr gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc.

Dangosodd y data hefyd mai prif angen yr unigolyn, waeth beth oedd ei sefyllfa oedd cyrchu gwasanaethau cymorth a oedd yn ymwneud â thai er mwyn cynorthwyo â rheoli eu harian a'u llety. Felly, bûm yn gweithio â darparwyr a chyflwynwyd y data i grŵp Cynllunio CP RhCT er mwyn ystyried ad-drefnu gwasanaethau a chwrrd ag anghenion cyfnewidiol a chyfredol yr unigolion.

Rhwystrau / Heriau:

Mae bob amser yn anodd dod â gwasanaethau i ben, fodd bynnag, yn seiliedig ar y galw am wasanaethau, mae'n rhaid i ni ad-drefnu gwasanaethau er mwyn cwrdd ag anghenion unigolion. Roedd hwn yn benderfyniad anodd i'r grŵp cynllunio o ganlyniad i arbenigedd gwasanaethau a'r ffaith fod y grŵp cleientiaid yn bobl ifanc.

Y modd y cawsant eu goresgyn:

Cadarnhaodd y data fod angen i ni ddigomisiynu unedau a buddsoddi'r arian a fydd yn cael ei arbed i gomisiynu unedau ychwanegol ar gyfer y rheini sydd ag anghenion niferus/anghenion cymhleth.

Roedd hyn yn cynnwys sicrhau'r grŵp cynllunio petai'r angen ar gyfer pobl ifanc yn codi yn y dyfodol y gellid talu amdano drwy hyblygrwydd gwasanaeth cymorth anghenion niferus/anghenion cymhleth pan fo angen.

Torrodd y gwasanaeth newydd y rhestr aros/amseroedd ac mae hefyd wedi sicrhau fod cymorth yn cael ei gynnig pan fydd ei angen.

MT:-

Trwy gydol 2016 a 2017, bu'r Tîm Cefnogi Pobl yn cynnal adolygiad o gostau'r uned Cymorth sy'm ymwneud â Thai o Gymorth fel y bo'r angen. Roedd llawer o'r prosiectau a gomisiynwyd yn seiliedig ar dariff Grant Refeniw Cefnogi Pobl nad sydd mwyach yn cael ei ddefnyddio. Hefyd, yn hanesyddol, symudodd Tîm Cefnogi Pobl Merthyr Tudful o gomisiynu'n seiliedig ar yr uned i gomisiynu fesul oriau a hynny er mwyn cyflawni gofynion yr archwiliad. Dynododd y newidiadau hyn amrywiadau mawr yng nghyfraddau'r oriau ymhlith darparwyr heb unrhyw resymeg glir tros y gwahaniaethau hynny. Golygodd hyn wahaniaethau yng nghost pob awr o uned o gymorth yn ymwneud â chymorth tai ar gyfer amryw o wasanaethau cymorth tebyg ac amrywiol.

Penderfynodd y GCCP (Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl) fabwysiadu system gostau teg: Y Cyfrifydd Costau (sy'n seiliedig ar brif egwyddorion model Casnewydd) ar gyfer holl gynlluniau Cefnogi Pobl ym Merthyr Tudful. Cafodd ei gyflwyno yn Ebrill 2018 wedi ymgynghoriad â holl ddarparwyr y cynlluniau cyfredol. Mae'r polisi yn pennu graddfa deg ar gyfer pob uned, pob awr ac o ganlyniad, cyfanswm swm arian Grant Cefnogi Pobl a fydd yn cael ei dalu i gynlluniau sydd wedi eu contractio. Mae'r raddfa, yn sylfaenol yn seiliedig ar lefelau cyflog sy'n cael eu talu gan y cyflogwyr i'w gweithwyr cymorth.

Pwrpas y polisi prisio bydd cyflawni cydraddoldeb, cysondeb a thegwch wrth gontractio ar gyfer cynlluniau cymorth sy'n ymwneud â thai o dan Raglen CP. Canlyniad anochel hyn fydd arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y dyraniad ariannol lleol a allai gael ei ail-fuddsoddi'n lleol yn yr ardaloedd sydd fwyaf ei angen gan sicrhau cydymffurfiad strategol ac effaith. Cafwyd arbedion effeithlonrwydd o ganlyniad i weithrediad y fformiwla sydd yn cael ei ail-fuddsoddi yn y meysydd hynny sydd ei angen fwyaf yn lleol. Mae'r rhain yn cynnwys prosiect Credyd Cynhwysol, Cynllun Peilot Tai yn Gyntaf a throsglwyddiad i Teuluoedd yn Gyntaf ac ar gyfer Gweithiwr Plant yn ein Lloches i Fenywod.

Rhwystrau / Heriau:

Cafwyd rhai pryderon gan ddarparwyr ynghylch y toriadau cyllidebol posib a'u heffaith ar ddarpariaeth y gwasanaeth yn ogystal â pheth penbleth ynghylch y cyfrifiadau. Fodd bynnag, mae rhaid i ni fabwysiadu polisi prisio teg a chyson ar gyfer prosiectau cyfredol a newydd er mwyn sicrhau llwyddiant y rhaglen a gwerth am arian.

Y modd y cawsant eu goresgyn:

Cynhaliodd y Tîm Cefnogi Pobl nifer o ddigwyddiadau ymgynghorol, sesiynau gwybodaeth a chyfarfodydd cynllunio unigol er mwyn mynd trwy'r rhesymeg, y broses, y cyfrifiadau a'r effaith ar gyfer 2018/19 a 2019/2020. Roedd y Grŵp Cynllunio'n cytuno ar holl elfennau ychwanegol y polisi prisio newydd trwy gydol ei ddatblygiad a'i weithrediad ac yn ymdrin â phryderon fel yr oeddent yn codi.

Pa waith rhanbarthol sydd wedi cael ei gomisiynu a sut y mae gwasanaethau wedi gwella ers yr adolygiad blynyddol diwethaf?

Mae'r PCRh wedi cymeradwyo cydgomisiynu astudiaeth dichonoldeb ar gyfer darpariaeth hostel ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sydd ag anghenion cymhleth oddi fewn i'r rhanbarth. Mae'r ddau Awdurdod Lleol wedi cyllido hyd at uchafswm o £15,000 yr un er mwyn ariannu'r astudiaeth ac wedi gwahodd cynigion o hyd at £30,000 i gynhyrchu'r gwaith. Bydd angen i'r astudiaeth ddadansoddi darpariaeth gyfredol a dynodi rhwystrau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth sydd ag anghenion cymhleth er mwyn cyflawni deilliannau o dan y system gyfredol.

Nod yr astudiaeth fydd cynorthwyo'r PCRh a'r GCCP i gynllunio gwasanaethau'r dyfodol a fydd yn gost effeithlon ac addas ar gyfer anghenion defnyddwyr gwasanaeth CP yng Nghwm Taf.

Bydd angen i'r astudiaeth asesu manteision ail-fodeli'r gwasanaethau er mwyn darparu gwasanaeth hostel tymor byr ar gyfer y rhanbarth yn ogystal â'r rhwystrau y byddai angen eu goresgyn er mwyn gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys amrywiadau yn y polisi prisio a gwahaniaethau gweithredol rhwng yr awdurdodau lleol. Disgwylir i'r astudiaeth ddechrau ym mis Medi ac adrodd yn ôl yn gyson i'r PCRh a'r GCCP perthnasol yn rheolaidd.

Sut allwch arddangos fod ymyriad cynt a dull ataliol tuag at ddigartrefedd yn cael eu darparu? Sut yr ymdrinnir â hyn ar lefel rhanbarthol?

RhCT:-

Mae gweithio mewn partneriaeth â Thîm Cefnogi Pobl Rhondda Cynon Taf a'r Tîm Tai wedi cyflwyno ffyrdd newydd o weithio a chynlluniau newydd er mwyn ymdrin ag ymyriadau cynnar ac atal digartrefedd.

Ad-drefnwyd gwasanaeth cymorth pan fo angen cyfredol CP i brosiect Gweithiwr Allweddol Digartrefedd â'r prif fwrdd yw atal neu leihau adrodd yn ôl am ddigartrefedd yn ôl swyddogaethau Deddf Tai (Cymru) 2014 yn hytrach na Fframwaith Deilliannau CP.

Trwy Gyllideb Grant Atal Digartrefedd, comisiynwyd gwasanaeth newydd ar y cyd â CP RhCT a CGaB (Canolfan Gwybodaeth ar Bopeth) RhCT er mwyn cynorthwyo unigolion sydd â phroblemau ariannol. Mae cyfieiriadau'n cael eu hanfon at gydlynnydd CGaB gan y Tîm Atebion Tai, Ymyriad Osgoi Digartrefedd (YOD) a gwasanaethau cymorth pan fo angen CP. Mae hyn yn berthnasol mewn amgylchiadau lle y gall CGaB gynorthwyo â cheisiadau budd-dal, cael CC yn barod, dyledion neu gyngor ariannol cyffredinol.

Cafodd prosiect gwydnwch ei dreialu am 6 mis trwy gydol 2017 â'r bwriad yw: "Gwella gwydnwch tenantiaid drwy seico-addysg, ymyriadau lles a galluogi cyfalaf cymdeithasol."

Dynodwyd yr angen ar gyfer y prosiect fel rhan o'r ddealltwriaeth a'r dysgu o amgylch iechyd meddwl ac anghenion lles emosiynol. Mae hyn yn aml yn rhwystro pobl rhag ymgysylltu yn eu cymunedau a gall fod yn risg posib i'w tenantiaeth.

Yn sgil llwyddiant y prosiect, derbyniwyd cyllid ar gyfer 2018/2019

MT:-

Mae gweithio mewn partneriaeth â TCP MT a'r Tîm Tai wedi cyflwyno dulliau mwy cydweithredol o weithio a chynlluniau newydd er mwyn mynd i'r afael ag ymyriad cynnar ac atal digartrefedd. Mae hyn yn cynnwys cwrs cyn-denantiaeth newydd sydd wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â'r Timau Cyflogaeth, Tai a CP.

Mae gwaith wedi ei gwblhau o amgylch y Credyd Cynhwysol yn lleol a'i effeithiau posib a hynny mewn partneriaeth â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, Tai, yr Adran Fudd-daliadau a'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn datblygu gwasanaeth penodol ar gyfer y CC sy'n cyd-fynd â llwybrau gofal cyfredol ac sy'n gwneud y mwyaf o'r cymorth sydd ar gael ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth pan fydd y Credyd Cynhwysol yn cael ei weithredu'n llawn o fis Mehefin 2018.

Rhwystro / Heriau:

O ganlyniad i berthnasau gwaith da rhwng yr TCP a'r Adran Tai, ni chafwyd unrhyw rwystrau wrth weithio ar y cyd.

Rhwystrau / Heriau:

Yn sgil perthynas waith da rhwng y TCP a Thai, nid oedd unrhyw rwystrau wrth weithio ar y cyd. Fodd bynnag, cafwyd rhai problemau cychwynnol gyda'r newid i'r gwasanaeth YOD wrth gofnodi deilliannau nad sydd bellach yn benodol yn ymwneud â Chefnogi Pobl.

Y modd y cawsant eu goresgyn:

Mae'r Tîm CP wedi cynnal cyfarfodydd ar y cyd â Thai a staff YOD er mwyn goresgyn y rhwystrau ac mae'r gwasanaeth yn awr yn rhedeg yn effeithiol.

Pa gysylltiadau sydd gan y PCRh â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Iechyd yn y rhanbarth? A gafwyd unrhyw gomisiynu gwasanaethau ar y cyd neu rannu adnoddau? Os do, rhowch fanylion.


Mae aelodaeth y PCRh yn cynnwys:-

- Uwch swyddogion Bwrdd Iechyd y Brifysgol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Mae aelodau'r PCRh yn eistedd ar y BGC (Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus) ac ar y SSWB RPB (Bwrdd Parertneriaethol Rhanbarthol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles) Lgallant hysbysu'r PCRh o unrhyw ddatblygiad ar y cynllun Lles a Chynllun Rhanbarthol y SWWB.
- Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion Awdurdod Lleol.

Nid oes unrhyw wasanaethau a gomisiynwyd ar y cyd na chyllidebau a rennir sy'n ymwneud â CPyn y rhanbarth ar hyn o bryd.

Mae PCRh Cwm Taf yn ymateb i ymgynghoriadau gan y BGC Y BPRH (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Bwrdd Parneriaeth Rhanbarthol) pan fydd angen ac yn rhannu ymarfer da â PCRh eraill.

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf
Fframwaith Partneriaeth Ranbarthol 18/19



Pa gysylltiadau eraill sydd wedi cael eu gwneud â grwpiau strategol / cynllunio rhanbarthol eraill a pha waith cyd-gomisiynu sydd wedi cael eu gwneud â phartneriaid allweddol eraill / rhaglenni?

RhCT:-

Gweithiodd Tîm CP RhCT mewn partneriaeth â Gwasanaethau Plant er mwyn adolygu prosiect yr Hen Bopty sy'n darparu 5 uned o lety sy'n derbyn cymorth 24 awr y dydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 21 oed sydd ag anghneion cymhleth.

Mae tair allan o'r bum uned llety ar gael i Gwasanaethau Plant eu defnyddio er mwyn cyfieirio pobl ifanc sy'n agored i niwed a'r sawl sy'n Gadael Gofal yn uniongyrchol i'r gwasanaeth.

Mae cyfieiriadau i'r prosiect yn cael eu trafod gan banel aml asiantaeth ac yn cynnwys cynrychiolaeth gan GP (Gwasanaethau Plant,) CP, Tai a'r darparwr gwasanaeth er mwyn ystyried unigolion addas a'r rhai sydd fwyaf mewn angen.

Gan fod RhCT yn fraenarwr llawn, cyflawn rydym yn gweithio'n agos â ffrydiau ariannu eraill. Mae Grŵp Gweithredol sy'n cynnwys arweinwyr y prosiect wedi cael ei sefydlu er mwyn ystyried sut allwn fynd â'r model ariannu hyblyg yn ei flaen.

Rhwystrau / Heriau:

Mae'r rhaglen ariannu hyblyg yn newydd o hyd ac yn cael ei ddatblygu. Mae gwaith yn cael ei wneud ar yr heriau a'r rhwystrau o hyd a bydd adborth yn cael ei roi fel rhan o ddeilliannau'r prosiect peilot.

MT:-

Mae Tîm CP MT, mewn partneriaeth â Gwasanaethau Plant yn edrych ar wasanaethau cymorth pan fo angen i bobl ifanc gan y byddant yn cael eu hail-gomisiynu yn ogystal ag adolygu llety safle penodol ein pobl ifanc er mwyn sicrhau fod y llwybrau gofal hynny'n cydymffurfio â llwybrau gofal Tai. Mae prosesau asesu cyson yn eu lle sy'n cynnwys 11 uned o lety ar gyfer Pobl Ifanc sydd ag anghneion gofal yn ogystal â'r rhai sy'n gadael gofal.

Gan fod MT yn fraenarwr llawn a hyblyg, rydym yn gweithio'n agos â ffrydiau ariannu eraill.

Mae Grŵp Gweithredol sy'n cynnwys arweinwyr y prosiect wedi cael ei sefydlu er mwyn ystyried sut allwn fynd â'r model ariannu hyblyg yn ei flaen.

Rydym, hefyd wedi datblygu tri grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn dechrau edrych ar wiriadau cymhwysedd integredig ar draws pob ffrwd yn ogystal â phosibilrwydd rhannu gwaith papur ac edrych ar ddatblygu protocol gwybodaeth a rennir.

Rhwystrau / Heriau:

Mae'r rhaglen ariannu hyblyg yn newydd o hyd ac yn cael ei ddatblygu. Mae gwaith yn cael ei wneud ar yr heriau a'r rhwystrau o hyd a bydd adborth yn cael ei roi fel rhan o ddeilliannau'r prosiect peilot.

6. Gwerthusiad Aelodau PCRh

Beth weithiodd yn dda?	Beth sydd angen ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod?	Sylwadau eraill:-
<ul style="list-style-type: none"> • Mae ymroddiad aelodau'r PCRh wedi parhau'n gryf a chafwyd ymroddiad i ddynodi cyfleoedd ar gyfer cyd-gaffael gwasanaethau. Mae hyn wedi cynnwys adolygu gwasanaethau cyfredol a chanfod cyllid er mwyn cefnogi ymchwil i ddeall anghenion y dyfodol. Mae ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth wedi parhau i fod yn ffocws ac mae darparwyr wedi arddangos amrywiaeth o ffyrdd i gasglu adborth. Ffocws ar ymroddiad i ddynodi cyfleoedd rhanbarthol, dynodi blaenoriaethau a gosod cynlluniau gwaith er mwyn datblygu Cwm Taf yn y meysydd hyn. • Ymgynghoriad defnyddiwr y gwasanaeth ac ymgysylltiad er mwyn atgyfnerthu effaith y rhaglen a dynodi cryfderau a gwendidau'r Rhaglen a chydymffurfio â blaenoriaethau wrth symud ymlaen. Mae prersenoldeb wedi bod yn gymharol gyson ac mae'r pynciau a drafodwyd wedi bod yn berthnasol. • Y datblygiad sydd wedi cael ei wneud i greu darpariaeth hostel ar lefel fawr yn rhanbarthol 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio i ddatblygu ymhellach ddull rhabarhol o weithio a chyd-gomisiynu. Cyfleoedd i gydlynnu/symleiddio rhaglenni ariannu - Mae RhCT a Merthyr yn rhan o brosiect braenaru Hyblygrwydd LIC • Mae cyd-gomisiynu yn faes sydd angen ffocysu arno eleni er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni. • Bydd cynllunio gwaith a sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen yn gymorth i ddarparu blaenoriaethau dros y 12 mis nesaf. Cynllun gwaith penodol er mwyn gweithio ar y blaenoriaethau a ddynodwyd ar ddechrau'r flwyddyn a'r PCRh i ofyn am ddiweddariadau datblygiad ar gomisiynu astudiaeth ar y cyd ar gyfer Darpariaeth Hostel yng Nghwm Taf - er mwyn hysbysu, o bosib comisiynu rhanbarthol y dyfodol o ddarpariaeth Hostel Cwm Taf. Cyfleoedd pellach i'w dynodi ar gyfer comisiynu/gweithio effeithiol ar y cyd lle y mae'n addas gwneud hynny yn ogystal ag adrodd yn ôl ac ychwanegu at waith byrddau eraill gan gynnwys PSB er mwyn cydymffurfio â datblygiadau Hyblygrwydd Ariannu a gwerthusiadau. • Mwy o gydweithio rhwng RhCT a Merthyr - gan fod ganddynt ddemograffig debyg ac felly, dylai fod ganddynt gynnig gwasanaeth tebyg. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd newidiadau posib i gyllid ac effaith posib y newidiadau hynny'n uchel ar agenda PCRh er mwyn sicrhau fod ein cynlluniau gwaith a'n ffocws yn hyblyg er mwyn cwrdd â'r heriau a gyflwynir. Angen trefniadaeth a chydlyniant dda. Bydd hyn yn well gan fod gwell cysylltiadau rhwng PCRh a byrddau eraill. Mae'r PCRh a'i aelodau'n parhau'n ymroddedig i edrych ar y blaenoriaethau ar gyfer Cwm Taf ac yn parhau i ddynodi ffyrdd i wneud gwelliannau ar gyfer y rheini sy'n derbyn gwasanaethau. Nod y 12 mis nesaf yw archwilio cyd-gomisiynu ymhellach.

7. Llywodraethu a Chynnal a Chadw

- a) A oes gan y PCRh femorandwm dealltwriaeth cyfredol sydd wedi ei arwyddo gan bob aelod?
Nagoes
- b) A oes gan bob un aelod o'r PCRh ffurflen ddatganiad buddiant cyfredol?
Oes
- c) A yw'r PCRh wedi cyhoeddi ei gynllun gwariant diwethaf a'i gynlluniau gwariant ar gyfer pob Awdurdod lleol yn y rhanbarth?
Ydi
- d) A yw'r PCRh wedi cyhoeddi ei Gynllun Strategol Rhanbarthol diweddaraf?
Ydi. Mae'r CGRh ar gyfer 2017-2020 wedi cael ei gyhoeddi a gellir dod o hyd iddo ar <https://www.merthyr.gov.uk/media/3173/rsp_2017-20_revised_with_spend_plan_-eng.pdf>
Nid ydym wedi cyhoeddi'r diweddariad a gynhyrchwyd yn 2018 eto.
- e) A yw'r PCRh wedi cyhoeddi adolygiad blynyddol llynedd eto?
Ydi, gellir dod o hyd i'r Adolygiad Blynyddol ar gyfer 16/17 ar dudalennau PCRh: <<https://www.merthyr.gov.uk/council/partnership-working/cwm-taf-regional-collaborative-committee/annual-reviews/>>
- f) A yw'r PCRh wedi cynhyrchu cofnodion o'i gyfarfodydd?
Ydyn, cyhoeddir cofnodion yn ddwyieithog ar dudalennau PCRh a gellir dod o hyd iddynt ar: <https://www.merthyr.gov.uk/council/partnership-working/cwm-taf-regional-collaborative-committee/minutes-of-meetings-and-key-messages/>

ATODLEN A

Dydd Iau 8 Mawrth 2018 – DG Ymatebion Ymgynghoriad Defnyddwyr Gwasanaeth.

Bore – Llety â Chymorth ar Safle Penodol

<p>1. A yw'r cymorth yr ydych wedi ei dderbyn wedi cwrdd â'ch disgwyliadau?</p>	<ul style="list-style-type: none">• Ydi, mae wedi bod yn fwy defnyddiol na'r hyn yr oeddwn yn ei ddisgwyl• Ydi, mae'r staff wedi bod yn dda iawn ac mae defnyddwyr eraill y gwasanaeth wedi cynorthwyo hefyd• Ydi, rwyf wedi derbyn cymorth i symud ymlaen – rwyf wrth fy modd yn cael fy lle fy hun yn awr.• Ydi, doeddwn i ddim yn disgwyl cael fy fflat fy hun.• Ydi. Rwyf wedi cael mwy o help nac yr oeddwn yn ei ddisgwyl ac rwy'n derbyn cymorth i symud allan ar fy mhen fy hun.• Ydi, mae wedi bod yn well ba'r hyn yr oeddwn yn ei ddisgwyl• Mae'r gefnogaeth wedi bod yn wych, yn gefnogol iawn• Fedrai ddim gweld bai - maent wedi fy nghynorthwyo â phopeth• Pan es i mewn am y tro cyntaf roeddwn yn meddwl ei fod yn dŷ cyffuriau ond mae wedi fy nghynorthwyo i fagu hunanhyder a siarad â phobl. Cyn hyn, dim ond gyda fy ngweithiwr cymorth yr oeddwn yn siarad.• Ydi, mae'n OK• Ydi, rwy'n hapus â'r cymorth – ond mi fyddwn wedi hoffi gwneud cwrs garddio• Ydi, roeddwn yn gyndyn i fynd i'r hostel. Doeddwn ddim yn disgwyl cymorth, dim ond ystafell i aros ynddi.• Mae'r cymorth wedi fy nghynorthwyo i ddeall sut i gael eiddo.
<p>2. A fu unrhyw rwystrau i chi gyflawni eich amcanion?</p>	<ul style="list-style-type: none">• Weithiau, mae'n anodd pan fydd staff yn gadael a rhai newydd yn cyrraedd. Mae'n cymryd amser i ddatblygu ymddiriedaeth• Rwyf am weithio rhagor ond os byddaf yn gweithio fy oriau, bydd rhaid i mi dalu rhent llawn ac ni fyddwn yn gallu fforddio byw yma rhagor.• Mae'r cap ar enillion yn eich rhwystro rhag cael swydd llawn amser• Mae ôl-daliadau rhent yn fy nal yn ôl.• Diffyg cyfathrebu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau• Fy anawsterau dysgu fy hun• Cost symud i lety preifat i'w rhentu• Does dim modd i mi gael swydd iawn gan nad oes gen i gyfeiriad• Y staff atebion tai - ni chefais gynnig cyfweliad digartrefedd• Diffyg tai un ystafell wely• Budd-daliadau – Credyd Cynhwysol• Dim cymorth gan y staff atebion tai• Dim cyswllt gan weithiwr achos atebion tai• Dim, gwybodaeth i ddod â thenantiaeth i ben• Dim digon o gymorth gyda fy iechyd meddwl

<p>3. Pa effaith y mae'r gefnogaeth yr ydych wedi ei dderbyn wedi ei gael ar eich bywyd?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddwn erioed wedi cael fy fflat fy hun oni bai am y cymorth a dderbyniais. • Nid oeddwn yn disgwyl cael fy lle fy hun. • Mae wedi fy nghynorthwyo llawer. • Byddwn mae'n siŵr yn y carchar os nad oeddwn yn byw yma. Mae wedi fy helpu llawer. • Mae wedi bod yn gymorth â phopeth, dim rhywle i fyw yn unig. Mae'r staff wedi fy nghynorthwyo i fynd i apwyntiadau meddygol a gyda fy iechyd. • Mae wedi bod yn llawer o gymorth i mi. Fy uchelgais hirdymor yn awr yw gwirfoddoli un diwrnod er mwyn cynorthwyo pobl eraill sydd wedi dioddef cam-drin domestig. • Rwy'n teimlo'n fwy ymlaciedig. • Mae fy ngweithiwr cymorth wedi fy nghynorthwyo i fod yn fwy hyderus • Mae'r gefnogaeth wedi bod yn wych • Mae'r pwysau wedi codi oddi ar fy ysgwyddau • Rwyf wedi cael cymorth i hyfforddi • Rwyf yn awr yn teimlo'n ddigon hyderus i reoli fy nhenantiaeth fy hun • Rwy'n gallu rheoli fy arian • Rwy'n well yn cadw golwg ar bwy sy'n mynd a dod
<p>4. A yw'r cymorth yr ydych wedi ei dderbyn wedi bod yn ddigon hyblyg?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r staff yn trio eu gorau i fod yn hyblyg â ni • Ydw, rwyf wedi cael cymorth yn delio â'r ganolfan waith a derbyn fy mudd-daliadau • Maent yn gymorth i mi aros ar y llwybr cywir • Maent yn fy ngwthio i wneud pethau na fyddwn wedi trio eu gwneud o'r blaen • Ydw, mae byw yma wedi achub fy mywyd • Ydw – mae fy ngweithiwr cymorth yn gefnogol iawn • Os bydd angen i mi newid amser cyfarfod, mi fyddant yn gwneud hynny • Hyblyg iawn • Ydw
<p>5. A ydych yn fwy abl i allu byw yn annibynnol o ganlyniad i'r cymorth yr ydych wedi ei dderbyn?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ydw, rwyf wedi derbyn cymorth yn dysgu coginio, smwddio, glanhau, gwneud cyllideb a thalu biliau • Mae wedi gwneud i mi sylweddoli fy mod yn gyfrifol am bopeth yn fy nhenantiaeth fy hun • Ydw, rwyf bron iawn ar y gris rwyf am fod arni mewn bywyd • Ydw, rwyf wedi derbyn cymorth i dalu'r biliau a phrynu bwyd oddi fewn i fy nghyllideb • Rwyf nawr yn mwynhau glanhau'r tŷ • Cawsom gyfarfod tŷ ac yn awr mae gennym amserlen i lanhau'r tŷ a'r ardaloedd cymunol • Ydw, rwy'n fwy hyderus ag arian • Rwyf wedi gwella fy sgiliau coginio • Ydw – ond byddwn dal i hoffi cefnogaeth hirdymor • Cwrs parod am denantiaeth

<p>6. A yw safon eich bywyd wedi gwella o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi derbyn cymorth?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ydi - Rwyf lawer hapusach yn awr • Ydi, llawer gwell na bod yn y carchar • Mae bywyd llawer yn well yn awr • Ydi, yn bendant. Roeddwn yn byw mewn car ond yn awr mae gen i fy lle fy hun • Newidiodd fy mywyd ar ôl i mi fynd i'r hostel. Yn awr rwy'n gwneud fy hyfforddiant PTS • Ydi, rwy'n fwy hyderus • Rwy'n fwy annibynnol • Mae iechyd a diet wedi gwella • Ydi, rwy'n gallu coginio yn awr • Ydi, rwy'n llai pryderus • Gallaf ofyn i'r staff am gymorth
<p>7. Ydych chi'n teimlo fod unrhyw agweddau o'r cymorth yr ydych wed eu derbyn wedi bod yn ddefnyddiol?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rwyf wedi derbyn cymorth yn rheoli problemau cyffuriau / alcohol • Help i fynd i apwyntiadau • Cael fy atgoffa i fynd i apwyntiadau'r doctor • Y ffordd y maent yn fy annog ac yn fy ngwthio i wneud mwy • Popeth • Dysgu sgiliau newydd • Gwneud pethau y byddai rhiant yn eu gwneud • Popeth • Rwy'n hoffi'r rheolau • Cwmsela • Dangos y ffordd i gysylltu ag asiantaethau eraill • Cymorth gyda phob dim • Deall sut i gyllido • Deall y denantiaeth • Fy lles • Dod o hyd i gyflogaet
<p>8. Ydych chi'n teimlo na weithiodd unrhyw elfen o'r cymorth i chi?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gorfod talu am atgyweirio fy ystafell • Peidio cael mynd i ystafelloedd ein gilydd • Gweithwyr cymorth yn ein dihuno'n gynnar, am ddim rheswm • Peidio gallu cael ffrindiau draw pan fyddwn ni eisiau a'r ffaith eu bod yn gorfod gadael yn gynnar • Cyrffyw • Pobl o'r tu allan yn ymyrryd • Os oes problemau'n codi pan na fydd fy ngweithwyr cymorth yno • Nac ydw
<p>9. A gawsoch gymorth i ddod o hyd i lety newydd neu i gadw'ch llety cyfredol?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Do, cefais gymorth i roi cynnig am fflatiau • Rwyf wedi bod ar hyfforddiant GRAMO • Rwy'n barod wedi symud ymlaen i gael fy lle fy hun • Maent yn fy nghynorthwyo i symud ymlaen i rywle sy'n well ar gyfer fy mhroblemau iechyd – byngalo • Do – derbyniais gymorth i ddod o hyd i fy eiddo a'i gadw • Do, rwy'n gwneud cynnig yn ddyddiol neu'n wythnosol

<p>10. Lle y teimlwch y byddech petaech heb dderbyn cymorth gan y CP?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn y carchar, mae'n siŵr • Yn y carchar • Yn farw • Byw mewn perthynas gamdriniol • Cysgu o sofffa i sofffa • Yn farw • Yn y carchar • Ar y strydoedd • Cymryd cyffuriau • Yn farw • Naill ai ar y strydoedd, yn farw neu yn y carchar • Cysgu o dan y bont • Byddwn i ddim yma • Digartref • Yn y carchar • Yn farw • Am gyflawni hunanladdiad • Byddai fy iechyd meddwl wedi gwaethygu a fy nefnydd o sylweddau wedi cynyddu • Byw mewn ofn o gamdriniaeth ddomestig / ariannol / feddyliol
---	---

Prynhawn – Cymorth pan fo angen

<p>1. A yw'r cymorth yr ydych wedi ei dderbyn wedi cwrdd â'ch disgwyliadau?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ydi • Gallwch ddim a chael gwell na fy ngweithiwr cymorth • Byddwn yn hoffi rhagor o gymorth ond yn sgil salwch a gwyliau blynyddol, gall fy ngweithiwr cymorth ond fy ngweld nawr ac yn y man • Mae fy ngweithiwr cymorth yn wych • Maent yn cwrdd â fy nisgwyliadau ac yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl • Ydi. Roeddwn yn hoffi bod yn gyfarwydd â fy ngweithiwr cymorth • Roeddent yn fy nghynorthwyo'n fwy na chymorth tai yn unig • Mae cael yr un gweithiwr cymorth, cyson yn gymorth i mi gadw fy nhenantiaeth
<p>2. A fu unrhyw rwystrau i chi gyflawni eich amcanion?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bod yn yr un fflat. Mae fy landlord yn ofnadwy • Fy ngweithiwr cymdeithasol yn dweud un peth wrthyf a fy nghynbartner yn dweud rhywbeth arall • Nid yw 12 wythnos yn ddigon – mae angen rhagor o gymorth arnaf • Aseidiadau PIP • Fy iechyd meddwl a fy mhroblemau iechyd • Poeni fod fy nghymorth yn dod i ben a pheidio gallu symud i lefel is o gymorth • Fy mhroblemau personol • Roeddwn yn teimlo gormod o gywilydd i ymgysylltu ar y dechrau • Cuddio'r gamdriniaeth ddomestig yr oeddwn yn ei dioddef • Camdybiaethau ynghylch archwiliadau meddygol ar gyfer PIP • Y ffaith nad ydw i'n cofio pethau • Fy mrwydr barhaol ag iechyd meddwl

<p>3. Pa effaith y mae'r gefnogaeth yr ydych wedi ei dderbyn wedi ei gael ar eich bywyd?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddwn yn gallu byw heb gymorth fy ngweithiwr cymorth • Mae wedi fy nghynorthwyo i ddelio â bywyd (siarad am y gweithiwr Cymorth) • Mae wedi gwella fy mywyd a fy mherthnasau ac wedi cymryd y pwysau oddi ar fy nheulu a oedd yn poeni amdanaf • Gwell perthnasau teuluol • Gwella fy hunanhyder
<p>4. A yw'r cymorth yr ydych wedi ei dderbyn wedi bod yn ddigon hyblyg?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae fy ngweithiwr cymorth wedi bod yn wych • Roedd ar fin dwyn fy nghymorth i ben ond wedi i bibau a oedd wedi rhewi achosi llifogydd yn fy nghartref, rwyf wedi cael estyniad • Nid wyf am fynd i apwyntiadau yng Nghaerdydd ar fy mhen fy hun ond gall fy ngweithiwr cymorth ddim dod gyda mi – angen rhagor o hyblygrwydd ar gyfer materion o'r fath. • Mae'r staff wedi bod mor hyblyg ag y gallant yn aildrefnu apwyntiadau ar fy nghyfer.
<p>5. A ydych yn fwy abl i allu byw yn annibynnol o ganlyniad i'r cymorth yr ydych wedi ei dderbyn?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ydw, ond mae angen llawer o gymorth arnaf o hyd ar hyn o bryd • Ydw, unwaith y bydd popeth yn fy flat wedi ei drefnu • Ydw • Ydw, ond bydd angen rhywfaint o gymorth arnaf am byth • Ydw, rwy'n gallu rheoli biliau ac yn awr rwy'n gwirfoddoli • Rwy'n gallu talu fy miliau ac agor fy mhost yn hytrach na'i adael heb ei agor fel yr oeddwn yn arfer gwneud
<p>6. A yw safon eich bywyd wedi gwella o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi derbyn cymorth?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ydi, yn fawr iawn –ond gallaf beidio help meddwl sut aeth pethau o'i le i mi • Ydi, trefnodd fy ngweithiwr cymorth fy mudd-daliadau i mi • Rwy'n llawer mwy ymlaciedig ac mae bywyd wedi gwella • Ydi, yn bendant
<p>7. Ydych chi'n teimlo fod unrhyw agweddau o'r cymorth yr ydych wed ei dderbyn wedi bod yn ddefnyddiol?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cael fy atgoffa am apwyntiadau meddygol y byddwn wedi anghofio amdanynt • Derbyn cymorth ar gyfer cam-drin sylweddau • Y gweithwyr cymorth ar ddiwedd y ffôn os oes eu hangen arnaf • Cael fy atgoffa am apwyntiadau meddygol a chymorth i aildrefnu apwyntiadau • Cael apwyntiadau cofio. Mae'n gymorth fod fy ngweithiwr cymorth yn fy e-bostio fel y gallaf gyfeirio at yr e-byst • Mae'n gymorth i mi fod fy ngweithiwr cymorth yn defnyddio whatsapp fel y gallwn anfon negeseuon yn rhad ac am ddim pan na fydd gennyf gredyd • Gallu dangos fy rhwystredigaethau i fy ngweithiwr cymorth yn hytrach na gweiddi ar y swyddogion tai allai beryglu fy nhŷ.
<p>8. Ydych chi'n teimlo na weithiodd unrhyw elfen o'r cymorth i chi?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pan fydd fy ngweithiwr cymorth bant a byddaf yn gweld rhywun newydd nad wyf yn ei adnabod • Pan na fydd y gweithwyr cymorth yn gallu gwneud ambell beth gyda ni gan eu bod wedi eu cyfyngu • Yn sgil y ffaith nad ydw i'n cofio pethau yr wyf wedi eu dysgu – mae angen cymorth parhaol arnaf ond mae rhaid iddo ddod i ben rhywbryd ac mae hynny yn fy mhryderu

<p>9. A gawsoch gymorth i ddod o hyd i lety newydd neu i gadw'ch llety cyfredol?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Do ac rwyf wedi derbyn cyngor i beidio gwneud cais am eiddo nad sy'n addas ar fy nghyfer • Do, bob amser • Fy helpu gydag ymrwymiad hawlydd y Ganolfan Waith fel nad ydwyf yn cael fy nghosbi ac yn colli fy nhŷ os na fyddaf yn gallu talu'r rhent
<p>10. Lle y teimlwch y byddech petaech heb dderbyn cymorth gan CP?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ar y strydoedd • Dioddef o stress • Ni fyddwn wedi goresgyn rhwystrau • Perthnasau teuluol gwael • Dim rhwydwaith i fy nghefnogi • Iechyd meddwl gwael

